
# EICH TAITH

AT DDOD YN BAROD AR GYFER YR ARHOLIADAU




## CROESO I TGAU GWYDDONIAETH (DWYRADD)

cbac wjec

**Mae TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd) yn ymwneud ag astudio'r dair gwyddor. Bydd y rhain yn cael eu hasesu mewn unedau ar wahân ond byddan nhw'n arwain at un cymhwyster sy'n werth dau gymhwyster TGAU. Bydd y cwrs yn datblygu'ch dealltwriaeth o sawl maes gwyddoniaeth a bydd hefyd yn datblygu'ch sgiliau ymarferol a datrys problemau.**

---

## CYNLLUNIO YMLAEN...

**Uned 1: Bioleg 1**
- Celloedd a symudiad ar draws cellbilenni
- Resbiradaeth a'r systemau resbiradol mewn bodau dynol
- Treuliad a'r system dreulio mewn bodau dynol
- Y system cylchrediad gwaed mewn bodau dynol
- Planhigion a ffotosynthesis
- Ecosystemau, cylchredau maetholion ac effaith dyn ar yr amgylchedd

**Uned 2: Cemeg 1**
- Natur sylweddau ac adweithiau cemegol
- Adeiledd atomig a'r Tabl Cyfnodol
- Dŵr
- Y Ddaear sy'n newid yn barhaus
- Cyfradd newid cemegol

**Uned 3: Ffiseg 1**
- Cylchedau trydanol
- Cynhyrchu trydan
- Defnyddio egni
- Trydan domestig
- Nodweddion tonnau

**Uned 4: Amrywiad, Homeostasis a Micro-organebau.**
- Dosbarthiad a bioamrywiaeth
- Cellraniad a chelloedd bonyn
- DNA ac etifeddiad
- Amrywiad ac esblygiad
- Ymateb a rheoleiddio
- Arennau a homeostasis
- Micro-organebau a'u cymwysiadau
- Clefydau, amddiffyniad a thriniaeth

**Uned 5: Cemeg 2**
- Bondio, adeiledd a phriodweddau
- Asidau, basau a halwynau
- Metelau ac echdynnu metelau
- Adweithiau cemegol ac egni
- Olew crai, tanwyddau a chemeg organig

**Uned 6: Ffiseg 2**
- Pellter, buanedd a chyflymiad
- Deddfau Newton
- Gwaith ac egni
- Sêr a phlanedau
- Mathau o belydriad
- Hanner oes

Mwy o wybodaeth yn **www.cbac.co.uk/cymwysterau/gwyddoniaeth-tgau-dwyradd**

# GWNEWCH EICH GORAU GLAS!

cbac wjec

## AWGRYMIADAU!

**Unedau theori yw unedau 1, 2, 3, 4, 5 a 6** – sicrhewch eich bod yn dysgu'ch gwaith ar gyfer bob uned wrth i chi fynd yn eich blaenau gan y bydd arholiad ar ddiwedd pob un.

**Efallai y bydd cwestiynau'n seiliedig ar yr arbrofion a wnaed yn y dosbarth yn eich arholiadau.** Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn talu sylw pan fyddwch yn gwneud y rhain ac yn eu hadolygu cyn yr arholiad.

**Darllenwch y papurau arholiad yn ofalus gan amlygu geiriau allweddol wrth i chi fynd drwyddynt.** Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r geiriau gorchymyn a nifer y marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn, fel eich bod yn gwybod faint o fanylion i'w rhoi.

**Yn unedau 1, 2, 3, 4, 5 a 6 bydd un cwestiwn ymateb estynedig sy'n werth 6 marc.** Mae'n bwysig eich bod yn strwythuro'ch ateb yn dda ac yn defnyddio brawddegau llawn gyda phrif lythrennau ac atalnodau llawn.

**Mae Uned 7 yn asesiad ymarferol rydych yn ei wneud yn y dosbarth.** Mae hwn yn seiliedig ar y sgiliau ymarferol rydych chi wedi'u dysgu yn unedau 1 i 6.

## CANLLAWIAU LLESIANT

**Cymerwch gamau bach.**
Cofiwch mai taith yw hon a byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar hyd y ffordd.

**Cymerwch egwylion rheolaidd o adolygu.**
Gwnewch ymarfer corff, ewch i weld ffrindiau, treuliwch amser â'r teulu.

**Edrychwch ar ôl eich hun.**
Gwnewch yn siŵr bod eich deiet yn gytbwys a'ch bod yn cael digon o gwsg.


**Byddwch yn bositif.**
Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel hynny, bydd agwedd bositif yn eich helpu chi.

**Cofiwch fod pawb yn wahanol.**
Ceisiwch beidio â chymharu eich hun ag eraill.

## SUT BYDDWCH CHI'N CAEL EICH ASESU?

Mae'r cymhwyster wedi'i rannu'n 7 uned, ac mae pob un yn cael ei marcio gan CBAC.

| | | |
|---|---|---|
| Uned 1 | **Asesu drwy arholiad**<br>Haen sylfaenol a haen uwch ar gael | **15%** o gyfanswm y marciau |
| Uned 2 | **Asesu drwy arholiad**<br>Haen sylfaenol a haen uwch ar gael | **15%** o gyfanswm y marciau |
| Uned 3 | **Asesu drwy arholiad**<br>Haen sylfaenol a haen uwch ar gael | **15%** o gyfanswm y marciau |
| Uned 4 | **Asesiad yn seiliedig ar dasg a gyflawnir yn y dosbarth** Haen sylfaenol a haen uwch ar gael | **15%** o gyfanswm y marciau |
| Uned 5 | **Asesu drwy arholiad**<br>Haen sylfaenol a haen uwch ar gael | **15%** o gyfanswm y marciau |
| Uned 6 | **Asesu drwy arholiad**<br>Haen sylfaenol a haen uwch ar gael | **15%** o gyfanswm y marciau |
| Uned 7 | **Asesiad ymarferol a wneir**<br>yn y dosbarth | **10%** o gyfanswm y marciau |




Mwy o wybodaeth yn **www.cbac.co.uk/cymwysterau/gwyddoniaeth-tgau-dwyradd**